

Crynodeb United Welsh: Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth

Ionawr 2025 – Ionawr 2026



Gweledigaeth

Mae United Welsh yn dod yn sefydliad gwrth-hiliol.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Mae ein Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth yn canolbwyntio ar dri maes:

1. Cynrychiolaeth

Byddwn yn gweithio'n barhaus i wella amrywiaeth ethnig Bwrdd United Welsh a staff ar bob lefel.

2. Darparu gwasanaeth

Byddwn yn gwreiddio gwrth-hiliaeth a chydraddoldeb hiliol ym mhob rhan o'n cynllun a darpariaeth gwasanaeth.

3. Cyfathrebu ac ymgysylltu

Byddwn yn dangos ein cefnogaeth i gydraddoldeb hiliol ac yn darparu llwyfannau i bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig siapio, dylanwadu a newid y gwasanaethau a ddarparwn.



Pam?

1. Mae angen i ni gynrychioli'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Rydym am allu uniaethu â chanfyddiadau a phrofiadau ein cwsmeriaid a'u deall. Bydd bod yn weithlu amrywiol yn cryfhau ein gallu i ddarparu gwasanaethau mwy hygyrch a thosturiol.
2. Rhaid inni fod yn rhan o'r ateb. Er mwyn dod yn wrth-hiliaeth, rhaid inni edrych ar ein strwythurau a'n gwasanaethau trwy lens hil, a 'dylunio' hiliaeth allan o'n systemau.
3. Mae gennym lwyfan i chwyddo lleisiau pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac rydym am ei ddefnyddio. Mae eu profiadau yn bwysig, a rhaid inni wrando'n astud bob amser. Ni allwn ddileu rhwystrau i bob pwrpas os nad ydym yn gwrando ar y bobl sy'n eu hwynebu.



Sut?

Ein hymrwymiaidau:

- Datblygu grŵp staff cynrychioliadol
- Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith staff o hiliaeth, gwrth-hiliaeth a'i gysylltiad â thai a gwasanaethau
- Cynyddu cyfranogiad cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn ein cynllunio a darparu gwasanaethau; clywed a rhannu eu straeon a'u hadborth
- Gwella casglu a defnyddio data
- Cynnal diwylliant cynhwysol lle gall pobl ddod â'u hunain i'r gwaith
- Monitro cynnydd wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol yn erbyn ein cynllun gweithredu.

Canlyniadau

- Grŵp staff sy'n adlewyrchu'n well y bobl rydym yn eu gwasanaethu
- Mwy o ymwybyddiaeth a defnydd o arfer gwrth-hiliaeth
- Gwell dealltwriaeth o'n cwsmeriaid
- Gwell gwasanaethau ac ansawdd bywyd i gwsmeriaid a staff o leiafrifoedd ethnig
- Cael eich cydnabod fel sefydliad gwrth-hiliaeth.

